# Cyngor Sir Ddinbych **Strategaeth Twristiaeth** 2019-2022



Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council



# Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig at les economaidd Sir Ddinbych:

Mae twristiaeth eisoes yn chwistrellu refeniw sydd wir ei angen i'r economi leol (£490 miliwn STEAM  2017) ac yn cefnogi dros 6,200 o swyddi yn y sir (STEAM 2017). Yn ogystal, mae twristiaeth yn cefnogi gwasanaethau lleol a seilwaith sydd o fudd i bobl leol ac sy'n helpu i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o'r sir i'r byd y tu allan.

Gall twristiaeth hefyd effeithio ar yr amgylchedd naturiol a chymeriad cyffredinol ardal. Mae'n bwysig bod twristiaeth yn cael ei datblygu a'i rheoli mewn modd sy'n sicrhau ffyniant cynaliadwy a llwyddiant hirdymor.

Mae llawer o bethau yn cyfrannu at lwyddiant twristiaeth. Er enghraifft, mae rheoli cefn gwlad a thir, treftadaeth, seilwaith ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau hamdden, cefnogaeth ar gyfer busnesau a rheoliadau cynllunio yn gyfranwyr pwysig at sector twristiaeth ffyniannus. Yn Sir Ddinbych mae'r cymhlethdod yma wedi'i adlewyrchu yn nifer y strategaethau a chynlluniau gweithredu sy'n bodoli o fewn meysydd gwasanaeth. Mae'r strategaeth hon wedi'i dylunio i sicrhau'r canlyniadau gorau ym maes twristiaeth drwy symleiddio a blaenoriaethu meysydd i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**[1]STEAM: Daw STEAM (The Scarborough Tourism Economic Activity Model) o fodel a ddatblygwyd wrth greu polisi twristiaeth deng mlynedd ar gyfer talaith Saskatchewan, Canada, yn 1981. Caiff ei dderbyn yn eang yn y DU fel model defnyddiol ar gyfer nodi effaith twristiaeth ar yr economi lleol.**



# Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

Uchelgais Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych yw sicrhau bod Sir Ddinbych yn lle ble mae trigolion a busnesau wedi'u cysylltu'n dda ac yn wydn; lle mae cyfleoedd i bobl ifanc gael tai fforddiadwy a chael sgiliau a swyddi i fyw bywydau llwyddiannus a boddhaus, lle mae pob un ohonom yn mwynhau amgylchedd deniadol ac wedi'i ddiogelu. Mae'r cynllun yn cynnwys camau penodol a fydd yn cael eu cyflawni dros bum mlynedd ond, yn bwysicach fyth, mae'r camau hyn wedi'u llunio i gael effaith y tu hwnt i'r pum mlynedd nesaf gan ystyried cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Strategaeth Twristiaeth hon wedi'i llunio i ategu'r Cynllun Corfforaethol ac yn cynnwys uchelgais i effeithio ar dwristiaeth y sir am genedlaethau i ddod.

Un o flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2017-22 yw sicrhau bod amgylchedd y sir yn ddeniadol ac yn cael ei ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd. Mae rhan o'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â chodi proffil y sir fel lle i ymweld ag o, er mwyn elwa ar botensial economaidd Sir Ddinbych.

# Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 2013-2023

Mae datblygu economaidd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer ein Cyngor ac mae'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn nodi twristiaeth fel sector allweddol yn y sir sydd â'r potensial ar gyfer twf pellach.

# Croeso Cymru

**Mae strategaeth twristiaeth 2013-2020 Partneriaeth ar gyfer Twf Llywodraeth Cymru yn cynnwys y weledigaeth ganlynol**:

*Bydd Cymru yn estyn croeso twymgalon, ansawdd eithriadol, gwerth gwych am arian a phrofiadau cofiadwy ac unigryw i bob ymwelydd.*

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod twristiaeth yn tyfu mewn modd cynaliadwy ac yn gwneud cyfraniad cynyddol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Mae ein Strategaeth Twristiaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau Croeso Cymru ar gyfer twristiaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar gael y gwerth gorau i Sir Ddinbych yn sgil blaenoriaethau cenedlaethol ac ymgyrchoedd marchnata rhanbarthol.

# Ein Hegwyddorion

Wrth wraidd ein Strategaeth Twristiaeth ceir ffocws penodol ar GYNALIADWYEDD a CHYDWEITHIO, fel y diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â gwella'r ffordd rydym ni'n cyflawni ein lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol; rydym ni'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy. Rydym ni wedi gweld malltod gor-ddatblygu mewn rhai rhannau o'r byd ac rydym ni'n ymwybodol o'n cyfrifoldeb i sicrhau nad ydym ni, wrth gynyddu twristiaeth yn y sir, yn peryglu'r asedau sy'n denu ymwelwyr yma yn y lle cyntaf.

# Ein Blaenoriaethau

Y tri phrif ganlyniad sydd arnom ni eisiau eu cyflawni ar gyfer twristiaeth yn Sir Ddinbych yw:

- Mae pobl yn ymweld â Sir Ddinbych drwy'r flwyddyn
- Mae pobl yn aros yn Sir Ddinbych yn hirach
- Mae pobl yn gwario mwy o arian yn y sir

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn byddwn yn canolbwyntio ar yr ATYNIADAU daearyddol sy'n denu pobl i Sir Ddinbych, ac annog ymwelwyr i ddarganfod Sir Ddinbych drwy nifer o THEMÂU DARGANFOD:

**ATYNIADAU**

- Y Rhyl a Phrestatyn
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE), gan gynnwys Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte
- Llangollen
- Dyffryn Clwyd

**THEMÂU DARGANFOD**

- Twristiaeth egnïol ac antur
- Trefi hanesyddol a thwristiaeth treftadaeth
- Twristiaeth bwyd a diod
- Tirluniau darluniadwy

# Sut Ydym yn Trefnu ein Hunain ac yn Gweithio Gydag Eraill

Gan fod y gweithgareddau yn berthnasol i sawl gwasanaeth o fewn y Cyngor, byddwn yn darparu'r strategaeth hon drwy drefnu ein gwaith yn y dulliau canlynol, a chanolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy gydweithio ac effeithlonrwydd.

## Rheoli Asedau

Rheoli a buddsoddi yn ein hasedau mewn modd cynaliadwy er mwyn eu gwneud yn hygyrch ac yn ddeniadol i ymwelwyr. O fewn y maes hwn byddwn hefyd yn arwain y prosiect Cynllun Corfforaethol i wella seilwaith er mwyn gwneud cynnal digwyddiadau yn haws.

## Rheoli Cyrchfan

Defnyddio adnoddau'r Cyngor i wneud profiadau ymwelwyr yn rhai pleserus.

## Datblygu Busnes

Gweithio gyda busnesau, ac ar eu rhan, a chefnogi mewnfuddsoddi i helpu i gyflawni ein huchelgais ar gyfer y sir.

## Marchnata Cyrchfan

Datblygu a darparu cynnyrch marchnata i'n helpu ni cyflawni'r canlyniadau dymunol.



# Heriau a Chyfleoedd Allweddol

Mae ein hadnoddau naturiol yn ddigyffelyb, gyda bryniau ac afonydd y de a thraethau eang ac agored y gogledd yn hygyrch iawn i ymwelwyr o ogledd orllewin a chanolbarth Lloegr.

Mae gennym ni nifer o atyniadau treftadaeth amrywiol ac, fel ein hadnoddau naturiol, mae'n hawdd iawn gyrraedd atynt.

Fel ym mannau eraill o Gymru, mae ein gweithgareddau twristiaeth yn canolbwyntio ar dymor yr haf.

Nid oes gan nifer o ardaloedd yn y sir signal ffonau symudol na band eang, ac mae ein busnesau yn ei chael hi'n anodd cystadlu yn y farchnad ddigidol.

Ychydig iawn o lefydd aros sydd ar gael i dwristiaid, felly mae'r uchelgais ar gyfer digwyddiadau ac atyniadau wedi'i chyfyngu gan nifer y bobl sy'n gallu aros yn lleol.

Oherwydd natur dymhorol ein marchnad dwristiaeth bresennol, mae swyddi yn y sector twristiaeth yn dueddol i fod yn rhai tymhorol gyda chyflogau isel ac mae pobl leol yn cael eu denu i gyfleoedd gyrfa gyda chyflogau uwch a gyrfaoedd mwy cynaliadwy y tu allan i'r sir.

Bydd natur is-ranbarthol a rhanbarthol y tirlun twristiaeth yn herio ein dull gan ein bod ni mewn partneriaeth ag eraill sydd, o bosibl, â blaenoriaethau gwahanol.

Fel awdurdod lleol gydag adnoddau sy'n prinhau, rydym ni'n dibynnu'n drwm ar gyllid allanol i'n helpu ni gyflawni ein huchelgeisiau o ran twristiaeth.

Rydym ni'n cael trafferth denu pobl gyda'r sgiliau a'r gallu cywir i wasanaethu'r fasnach dwristiaeth drwy gydol y flwyddyn. Rydym ni'n chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a darparu Strategaeth Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sy'n cynnwys ffrydiau gwaith fel datblygu Canolfan Sgiliau a Chyflogaeth a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr ardal hon.

Rydym ni'n credu, drwy egluro ein huchelgais a'n blaenoriaethau, bod modd i ni fynd i'r afael â'r heriau hyn a helpu i fanteisio i'r eithaf ar ein hasedau i ddarparu twristiaeth gynaliadwy ar draws y sir.









# Sut Byddwn ni'n Gwybod ein Bod yn Llwyddo?

Byddwn yn datblygu mesurau ystyrlon i roi gwybod i ni a ydym yn llwyddo gyda'n huchelgeisiau i ddenu mwy o bobl i Sir Ddinbych a'u hannog i aros yn hirach a gwario mwy drwy gydol y flwyddyn. Bydd mesurau STEAM yn ein helpu ni i gymharu ein perfformiad ag ardaloedd eraill yn y DU, e.e.

- Effaith Economaidd Twristiaeth
- Nifer yr ymwelwyr a oedd yn aros dros nos
- Nifer y swyddi cyfwerth â llawn amser sy'n cael eu cefnogi gan wariant twristiaeth

Byddwn hefyd yn datblygu mesurau lleol, megis arolygon, a mesurau ansoddol fel holiaduron, ac yn defnyddio modelau asesu effaith economaidd.

# Sut Byddwn yn Monitro ac yn Darparu'r Strategaeth?

Byddwn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r strategaeth hon drwy ddiddymu'r Grŵp Cyswllt Rheoli Cyrchfan a chreu Grŵp Trosolwg o Dwristiaeth newydd a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau Cyngor perthnasol, Aelod Arweiniol Twristiaeth a chynrychiolydd o'r Bartneriaeth Twristiaeth, ein prif bartneriaeth strategol gyda grwpiau twristiaeth a busnesau yn Sir Ddinbych.

Yn y dyfodol, bydd ein mentrau twristiaeth yn cael eu hystyried drwy'r strategaeth hon a'r Grŵp Trosolwg o Dwristiaeth er mwyn sicrhau ein bod ni'n canolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau ac uchelgeisiau, ac ddim yn gwanhau ein hymdrechion drwy ariannu meysydd eraill.